Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004
Rheoliad 16 o Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004
Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd)
(Rheoliad 25)

**Hysbysiad ynglŷn â Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol**
**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026**

Dan ddarpariaethau Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, mae gofyn i Gyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn greu Cynllun Datblygu Lleol. Ar 28ain a 31ain Gorffennaf 2017, mabwysiadodd Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn, yn y drefn honno, Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl) ar gyfer Awdurdod Cynllunio Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn. Y CDLl a fabwysiadwyd fydd y cynllun datblygu ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn a bydd yn sail i benderfyniadau ar gynllunio defnydd tir yn yr ardal hon.

Bydd copïau o'r CDLl a fabwysiadwyd, argymhellion y sawl a benodwyd i gynnal yr archwiliad annibynnol, adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd (sy'n cynnwys yr Adroddiad Amgylcheddol), a datganiad sy'n dangos sut yr ystyriwyd yr adroddiad amgylcheddol ac ati ar gael i'w harchwilio yn rhad ac am ddim yn holl lyfrgelloedd cyhoeddus y Sir ac yn swyddfeydd canlynol y Cyngor yn ystod yr oriau agor arferol:

Siop Gwynedd, Ffordd y Castell, Caernarfon;
Siop Gwynedd, Lon y Cob, Pwllheli;
Siop Gwynedd, Penarlâg, Dolgellau;
Swyddfeydd Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni.

Hefyd mae'r dogfennau uchod ar gael ar wefan y Cyngor sef www.gwynedd.llyw.cymru/cdll & www.ynysmon.gov.uk/cdll

Bydd copïau o'r Cynllun Datblygu Lleol, gan gynnwys ei fap cynigion, ar gael i'w prynu oddi wrth yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd polisicynllunio@gwynedd.llyw.cymru

Daeth y Cynllun Datblygu Lleol yn weithredol ar y dyddiad y cafodd ei fabwysiadu (h.y. 31 Gorffennaf 2017). Gall un sydd o'r farn fod y Cynllun Datblygu Lleol yn gwneud cam ag ef/â hi ac sy'n dymuno cwestiynu ei ddilysrwydd ar y sail nad yw o fewn y pwerau a roddir gan Ran 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 neu sydd o'r farn na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf honno neu ag unrhyw reoliad a wnaed o dani ynghylch mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol, wneud cais i'r Uchel Lys o dan Adran 113 o Ddeddf 2004 a hynny cyn pen chwe wythnos ar ôl 31 Gorffennaf 2017.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor sef www.gwynedd.llyw.cymru/cdll & www.ynysmon.gov.uk/cdll a chan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Llawr 1af Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor, Ffordd Gwynedd, Bangor LL57 1DT neu drwy anfon neges e-bost at: polisicynllunio@gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 685003.